



Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Cwestiynau Cyffredin i Ymgeiswyr

Cynnwys

Pwy sy'n gallu cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd drwy Arolygiaeth Gofal Cymru?	3
Sut rydw i'n gwybod os ydw i'n gymwys am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?	3
A yw'r gwasanaeth ar-lein ar gael yn Gymraeg?.....	4
Pryd gallaf gyflwyno cais i adnewyddu fy nhystysgrif bresennol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?	4
Sut rydw i'n dechrau?.....	4
Beth nesaf?.....	4
Faint bydd y gwasanaeth yn ei gostio?	5
Sut rydw i'n talu am fy ngwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?	5
Beth fydd yn digwydd os ceir gwybodaeth 'gadarnhaol' ar fy nhystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?	5
Beth yw Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?	6
Beth yw manteision Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?6	
Sut ydw i'n tanysgrifio?	7
Pam a sut mae AGC yn cynnal gwiriadau o'm tystysgrif ar-lein?	7
Nid wyf wedi tanysgrifio i Wasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Sut byddwch yn gwirio fy nhystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?	7
Sut rydych yn rheoli'r wybodaeth rwy'n ei darparu?	8
Sut allaf i gael cymorth os ydw i'n cael anhawster gyda'r system?	8
Ble gallaf gael mwy o wybodaeth?	9

Cwestiynau Cyffredin Mynych am y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i Ymgeiswyr

Pwy sy'n gallu cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd drwy Arolygiaeth Gofal Cymru?

I'r sawl sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, gall y grwpiau canlynol o bobl gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd drwy AGC os oes modd iddynt gael un drwy gorff ymbarél neu gorff arall.

- Personau cofrestredig (gan gynnwys gwarchodwyr plant cofrestredig);
- Unigolion cyfrifol;
- Rheolwr cofrestredig (gwasanaethau Deddf Safonau Gofal unig);
- Cynorthwywyr gwarchod plant;
- Aelodau'r cartref; ac
- Unigolion sy'n byw mewn gwasanaeth cofrestredig.

Mae'n rhaid i bersonau sy'n gweithio mewn gwasanaethau sy'n gweithredu dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 (gwasanaethau Maethu, Mabwysiadu a Lleoli Oedolion) ddefnyddio AGC ar gyfer eu gwiriad oherwydd bod gofyn i Weinidogion Cymru gydlofnodi eu cais nes eu bod yn cael eu hailgofrestru dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Ar gyfer yr holl wasanaethau eraill, gall unigolion gael eu tystysgrif eu hunain drwy gorff ymbarél a'i chyflwyno i AGC cyhyd â bod llai na thri mis wedi mynd heibio ers y dyddiad cyhoeddi.

Os ydych yn derbyn gwiriad annibynnol neu drwy AGC, bydd angen i chi fod yn gymwys am wiriad Uwch (â rhestr Wahardd).

Sut rydw i'n gwybod os ydw i'n gymwys am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?

I fodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (neu ar gyfer corff ymbarél neu sefydliad arall) mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

- Fod yn 16 oed neu'n hŷn;
- Gweithio neu gymryd rhan mewn rôl neu weithgaredd yn gweithio'n uniongyrchol â phlant a/neu oedolion agored i niwed neu a allai ddod i gysylltiad â hwy.
- Gweithio neu gymryd rhan mewn maes gweithlu rhagnodedig i blant a/neu oedolion; a
- Bod yn gymwys am [wiriad](#)¹ Uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (â rhestr wahardd)

1

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/674523/Guide_to_eligibility_v9.pdf

Bydd yr holl ymgeiswyr sy'n darparu neu sydd wedi'u cysylltu fel arall â gwasanaeth sydd wedi'i gofrestru gan AGC (gweler uchod) ac yn gofyn am wiriad gennym ni, yn gymwys am wiriad Uwch (â rhestr Wahardd).

Byddwn yn penderfynu ar eich cymhwysedd am wiriad. Os ydych yn gymwys, byddwn yn eich cyfeirio at ein darparwr trydydd parti sy'n ymgymryd â gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ein rhan drwy eu system ar-lein.

A yw'r gwasanaeth ar-lein ar gael yn Gymraeg?

Ydy. Pan fyddwch yn mewngofnodi i'r gwasanaeth, byddwn yn cael opsiwn i ddewis naill ai'r Gymraeg neu Saesneg.

Pryd gallaf gyflwyno cais i adnewyddu fy nhystysgrif bresennol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?

Mae'r [rheoladïau](#)² yn gofyn i chi adnewyddu'ch tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd. Eich cyfrifoldeb chi yw hyn - nid fydd AGC yn eich atgoffa i wneud hyn.

Os oes angen i chi adnewyddu'ch tystysgrif bresennol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyda ni, argymhellwn nad ydych yn cyflwyno cais nes un mis cyn dyddiad adnewyddu'ch cais. Mae ein proses ar-lein yn gyflym a chaiff y rhan fwyaf o'r gwiriadau eu cwblhau o fewn 10 diwrnod. Byddant efallai'n cymryd yn hwy lle mae gwybodaeth wedi'i chynnwys ar y dystysgrif a/neu os ydych yn byw mewn ardal fetropolitan fawr.

Lle'r ydych yn cyflwyno'ch tystysgrif eich hun i ni gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, mae'n rhaid iddi fod yn 'ddilys' (h.y. nid yn fwy na thri mis ers dyddiad ei chyhoeddi). Ni allwn dderbyn tystysgrif - i'w hadnewyddu neu i gofrestru ceisiadau - sy'n hŷn na thri mis.

Sut rydw i'n dechrau?

Os nad ydych eisoes wedi gwneud, mae'n rhaid i chi gysylltu ag AGC yn y lle cyntaf drwy ffonio **0300 7900 126** a gofyn am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gennym. Unwaith y byddwn wedi cadarnhau'ch cymhwysedd am wiriad ac wedi dweud wrth ein darparwr trydydd parti am hyn, byddwch yn derbyn dolen drwy e-bost ar wahân i'w porth ar-lein; cyfeirnod unigryw ac enw defnyddiwr. Dylech ddefnyddio'r rhain i fewngofnodi ar ein system ar-lein i gwblhau eich ffurflen gais gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Beth nesaf?

Bydd angen i chi gofnodi'r manylion mewngofnodi a roddwyd i chi yn yr e-bost awtomatig er mwyn i chi ddechrau ar eich cais.

² <https://arolygiaethgofal.cymru/rheoliadau-canllawiau-statudol-safonau-gofynnol-cenedlaethol-gwasanaethau-plant>

Unwaith y byddwch wedi nodi'ch manylion bydd gofyn i chi drefnu apwyntiad ar gyfer eich gwiriad adnabod. Dylai eich apwyntiad gymryd oddeutu 20 munud. Yn anffodus, dim ond yn un o'n tair swyddfa y gallwn gynnal apwyntiadau Gwirio hunaniaeth ac mae'n ofynnol i bob ymgeisydd fod yn bresennol yn ei apwyntiad. Ni allwn gytuno ar drefniadau eraill ar hyn o bryd.

Unwaith y bydd eich gwiriad adnabod wedi cael ei gwblhau, bydd AGC yn cadarnhau hyn drwy e-bost i'n darparwr trydydd parti a fydd yn cydlofnodi'ch cais a'i anfon i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i'r brosesu.

Faint bydd y gwasanaeth yn ei gostio?

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'ch gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar-lein gyda ni, bydd gofyn i chi dalu cost ffi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (£44 ar hyn o bryd) a ffi weinyddol (£8+TAW ar hyn o bryd).

Sut rydw i'n talu am fy ngwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?

Mae'n rhaid i chi dalu am eich gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'ch ffi weinyddol drwy'r gwasanaeth ar-lein. Bydd gofyn i chi dalu gan ddefnyddio *PayPal*; unrhyw brif gerdyn debyd neu gredyd (ac eithrio American Express); nid oes modd talu ag arian parod na sic. Dyma system ddiogel ac ni fydd eich manylion personol yn cael eu storio neu eu defnyddio at ddibenion eraill. Nid oes modd ad-dalu unrhyw ffioedd.

Beth fydd yn digwydd os ceir gwybodaeth 'gadarnhaol' ar fy nhystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?

Byddwn yn cael gwybod gan ein darparwr trydydd parti lle bo tystysgrif yn cynnwys gwybodaeth sy'n cynnwys, er enghraifft, fanylion am rybudd neu gollfarn. Byddwn yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi naill ai anfon eich tystysgrif atom drwy'r post diogel neu ei dod â hi'n bersonol. Mae'n rhaid i ni weld y dystysgrif bob tro neu ni allwn fod yn sicr nad yw'r wybodaeth 'gadarnhaol' yn newydd (mantais Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yw na fydd rhaid i chi wneud hyn bellach lle nad oes unrhyw wybodaeth newydd wedi cael ei datgelu).

Byddwn bob tro'n cymryd golwg cymesur o unrhyw wybodaeth o'r fath ac yn mynd i'r afael â phob enghraifft fesul achos.

Lle'r ydym yn ymwybodol ac wedi ystyried gwybodaeth 'gadarnhaol' sydd wedi'i chynnwys ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, mae'n debygol y byddwn yn dychwelyd y dystysgrif atoch chi. Os, fodd bynnag, y bydd gwybodaeth newydd ar eich tystysgrif ac nid ydym wedi cael gwybod am hyn, mae'n debygol y bydd yn rhaid i ni drafod hyn ymhellach â chi.

Os ydych wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn annibynnol bydd yn rhaid i ni weld eich tystysgrif ddiweddaraf, hyd yn oed os nad yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth neu gwybodaeth ychwanegol. Bydd yn rhaid i chi gyflwyno'r dystysgrif i ni yn bersonol neu drwy wasanaeth post diogel. Rhaid cyflwyno eich tystysgrif i ni o fewn tri mis i'r dyddiad dynoddi.

Beth yw Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?

Tanysgrifiad ar-lein yw'r [gwasanaeth diweddarau](#)³ sy'n eich galluogi i sicrhau bod eich tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol, a chyda'ch caniatâd, mae'n galluogi i AGC gwneud gwiriadau cyfnodol o'ch tystysgrif.

Mae'r gwasanaeth ar gael am ffi flynyddol (£13 ar hyn o bryd) ac mae'n rhaid i'ch tanysgrifiad gael ei adnewyddu bob blwyddyn os ydych am gynnal manteision y gwasanaeth.

Beth yw manteision Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?

Mae AGC yn argymhell bod yr holl ymgeiswyr yn achub ar y cyfle i danysgrifio i Wasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd drwy'r broses ymgeisio ar-lein. Drwy wneud hyn, gallwch fwynhau manteision y gwasanaeth; mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwasanaeth sy'n gyflyn ac yn gyfleus i chi ei ddefnyddio;
- Y gallu i reoli eich gwiriad eich hun gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd at ddibenion gwirfoddoli;
- Peidio â gorfod adnewyddu'ch tystysgrif bob tair blynedd - cyhyd â'ch bod yn cynnal eich tanysgrifiad Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac nid oes unrhyw wybodaeth newydd yn cael ei datgelu yn ystod eich gwiriad statws;
- Arbed amser a chostau i chi o orfod teithio i swyddfa AGC i adnewyddu'ch tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a
- Ni all AGC bellach dderbyn sicrwydd Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr); hyd yn oed (fel yn y rhan fwyaf o achosion) nad oedd eich tystysgrif wreiddiol wedi'i chydlofnodi gan Weinidogion Cymru.

Yn ogystal, mae Gweinidogion Cymru - am y flwyddyn ariannol 2018/19 - wedi cytuno i ariannu'ch ffi danysgrifio am y flwyddyn gyntaf (£13 ar hyn o bryd). Caiff hyn ei ddiwynnu o'ch taliad ar-lein.

³ <https://www.gov.uk/government/publications/dbs-update-service-applicant-guide/dbs-update-service-applicant-guide>

Cyhyd â'ch bod yn cynnal eich tanysgrifiad ac nid oes newid i statws eich tystysgrif, ni fydd angen i chi adnewyddu'ch tystysgrif yn ôl gofynion y [rheoladau](#)⁴

Sut ydw i'n tanysgrifio?

Gallwch ddewis tanysgrifio drwy'r gwasanaeth ar-lein wrth gwblhau'ch cais ar gyfer cais gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd gofyn i chi gadarnhau eich caniatâd i AGC gynnal gwiriadau statws bob hyn a hyn o'ch tystysgrif ar-lein.

Neu, unwaith y byddwch wedi derbyn eich tystysgrif newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, mae gennych 30 diwrnod calendr i danysgrifio. I wneud hyn, gallwch hefyd [danysgrifio](#)⁵ ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Pam a sut mae AGC yn cynnal gwiriadau o'm tystysgrif ar-lein?

Drwy danysgrifio i Wasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, bydd AGC yn ymgymryd â gwiriadau statws cyfnodol o'ch tystysgrif ar-lein - bydd y rhain er mwyn cadarnhau nad yw statws eich tystysgrif wedi newid ers iddi gael ei lanlwytho'n wreiddiol. Byddwn yn defnyddio [porth ar-lein y Gwasanaeth Datgelu a gwahardd](#)⁶ i wneud hyn.

Yn rhan fwyaf o achosion, ni fydd unrhyw newid i statws tystysgrif - golyga hyn nad yw'r dystysgrif wreiddiol yn cynnwys unrhyw wybodaeth - neu ddim gwybodaeth newydd.

Fodd bynnag, mewn nifer bach o achosion, bydd y gwiriad statws yn nodi bod gwybodaeth newydd wedi cael ei derbyn. Ni fydd y gwiriad yn datgelu natur yr wybodaeth newydd hon i ni. I weld yr wybodaeth newydd, bydd angen i ni gysylltu â chi a dweud wrthyfod fod eich statws ar-lein wedi newid. Bydd angen i chi gwblhau cais newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Sylwer: Os ydych wedi cofrestru gyda ni, neu'n destun gwiriad tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd mewn perthynas â gwasanaeth cofrestredig, mae'n gyfreithlon i ddweud wrthym am unrhyw gollfarn neu rybudd gan yr heddlu. Bydd methu â gwneud hyn hefyd yn nodi methiant rheoleiddiol ac mae hyn yn debygol o gael ei drafod ymhellach gyda chi.

Nid wyf wedi tanysgrifio i Wasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Sut byddwch yn gwirio fy nhystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?

Bydd ein darparwr trydydd parti'n tynnu'n sylw at y ffaith bod eich gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus.

⁴ <https://arolygiaethgofal.cymru/rheoliadau-canllawiau-statudol-safonau-gofynnol-cenedlaethol-gwasanaethau-plant>

⁵ <https://www.gov.uk/government/publications/dbs-update-service-applicant-guide/dbs-update-service-applicant-guide>

⁶ <https://secure.crbonline.gov.uk/crsc/check?execution=e1s1>

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y neges hon yn dangos bod eich gwiriad sydd wedi'i gwblhau wedi cael ei ddychwelyd heb unrhyw wybodaeth ychwanegol. Ni fydd angen i ni weld y tystysgrifau hyn.

Fodd bynnag, lle mae eich gwiriad yn cynnwys gwybodaeth ('gadarnhaol') ychwanegol, byddwn hefyd yn cael gwybod am hyn.

Os ydym eisoes yn gwybod am yr wybodaeth yn eich tystysgrif a'i bod wedi cael ei hystyried yn flaenorol, nid oes angen i ni gymryd unrhyw gamau gweithredu eraill. Fodd bynnag, os yw'r wybodaeth yn newydd ac nid yw wedi cael ei datgan gennych, efallai y bydd angen i ni drafod hyn ymhellach gyda chi.

Byddwn yn cysylltu â chi ac yn gwneud y canlynol:

- Gofyn i weld eich tystysgrif wreiddiol (gallwch naill ai dod â hon i un o'n swyddfeydd neu ei phostio atom drwy bost diogel);
- Ystyried cynnwys y dystysgrif; a
- Dychwelyd y dystysgrif atoch drwy'r post lle y bo'n bosib.

Sylwer: Mae'n ofyniad cyfreithlon i bersonau sydd wedi'u cofrestru gyda ni, neu sydd fel arall yn destun tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd mewn perthynas â gwasanaeth cofrestredig, ddweud wrthym am unrhyw gollfarn neu rybudd gan yr heddlu. Bydd methu â gwneud hyn yn fethiant rheoleiddiol ac mae hyn yn debygol o gael ei drafod ymhellach â chi.

Sut rydych yn rheoli'r wybodaeth rwy'n ei darparu?

Rydym yn prosesu unrhyw wybodaeth bersonol a/neu sensitif sydd gennym amdanoch yn deg ac yn gyfreithlon, a byddwn ond yn holi am wybodaeth o'r fath pan fydd ei hangen arnom er mwyn cyflawni ein rôl. Am fwy o wybodaeth am sut rydym yn prosesu data personol, gweler ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#)⁷.

Mae'r datganiad uchod hefyd yn gymwys i'n darparwr trydydd parti. Mae ei system ar-lein yn ddiogel ac mae gwybodaeth sy'n cael ei storio yno, gan gynnwys manylion personol ac ariannol, yn cael eu rheoli'n ddiogel ac nid ydynt yn cael eu rhannu â phartion eraill.

Sut allaf i gael cymorth os ydw i'n cael anhawster gyda'r system?

Mae gwasanaeth llinell gymorth am ddim ar gael (**02920 334 995**) i holl ddefnyddwyr y gwasanaeth (ar gael yn Gymraeg a Saesneg) rhwng 8.30am a 5.30pm, dydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc). Mae ein llinell gymorth yn cael ei gweithredu gan ein darparwr trydydd parti a bydd ei gynghorwyr yn gallu ei arwain/cefnogi drwy unrhyw heriau a wynebir gennych.

⁷ <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yn ogystal, mae'r system wedi'i dylunio fel na fyddwch yn gallu parhau i'r sgrin nesaf os nad yw cwestiwn wedi cael ei gwblhau neu os nad yw gwybodaeth allweddol, megis rhif trwydded yrru, wedi'i nodi'n gywir. Mae'r system wedi'i dylunio i leihau'r cyfle am gamgymeriadau wrth gwblhau'r broses ymgeisio. Bydd hyn hefyd yn cyflymu dychweliad eich gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy ddilyn y dolenni canlynol:

<https://arolygiaethgofal.cymru/archwiliadau-gan-y-gwasanaeth-datgelu-gwahardd-archwiliadau-gan-y-swyddfa-cofnodion-troseddol-yn>

<https://www.gov.uk/government/collections/dbs-update-service-promotional-material>

<https://www.vibrantnation.co.uk/ciw-cymru>